

Y Ffordd Ymlaen

2018-2023



Is-strategaethau | Ymchwil

Ein huchelgais

Mae gan Brifysgol Caerdydd broffil rhyngwladol fel Prifysgol lwyddiannus, eang, ymchwil ddwys, a gadarnhawyd drwy gyrraedd y pump uchaf yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014.

Ein huchelgais ar gyfer y cyfnod nesaf yw sicrhau ein henw da fel cymuned o ysgolheigion gyda'r dychymyg, yr egni a'r gallu i greu'r dyfodol ar y cyd. Rydym am gael ein cydnabod am ein harloesedd a'n cyfraniad at iechyd, cyfoeth, diogelwch a lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang.

Rydym yn ystyried gwaith ymchwil amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol a chymhwysol fel rhywbeth rhyng-gysylltiedig a hanfodol i bawb, ac sy'n ceisio sicrhau rhagoriaeth ym mhob un.

Adeiladu ar y strategaeth flaenorol

Roeddem wrth ein bodd gyda chanlyniadau REF 2014, a oedd yn gosod Prifysgol Caerdydd ymysg y pum sefydliad uchaf (yn seiliedig ar Cyfartaledd Pwynt Gradd). Yn y cyfnod yn dilyn canlyniad REF 2014 gwelwyd llwyddiant ymchwil yn parhau gan gynnwys cyhoeddiadau, prosiectau, partneriaethau newydd pwysig a chynnydd cyson mewn incwm ymchwil o ystod amrywiol o gyllidwyr. Mae hyn yn cadarnhau i ni fod gennym garfan o staff ardderchog, sy'n cynhyrchu ymchwil ac effaith sy'n wirioneddol o'r radd flaenaf.

Roedd 'Ymchwil Ymlaen 2015' yn adlewyrchiad systematig o'n perfformiad yn REF 2014. Llwyddodd y prosiect i'n galluogi i nodi'r hyn yr oedd angen i'r Brifysgol ei wneud i sicrhau canlyniad tebyg yn y REF nesaf.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid GW4 i gyflawni ymchwil sy'n gystadleuol yn fyd-eang. Gyda'n gilydd, mae gennym yr adnoddau, y gallu a'r cymhelliant ymchwil ac arloesedd, i sicrhau partneriaethau traws-sector a datrys heriau byd-eang.

Amcanion sylfaenol

Cawn ein hadnabod fel Prifysgol:

- lle mae gyrfaedd academiaidd yn ffynnu. Caiff ein hymchwilwyr, o fyfyrwyr i athrawon, eu grymuso a'u cynorthwyo

i gynnal gwaith ymchwil ar y lefelau uchaf, ar lwyfan rhyngwladol sy'n fwyfwy cystadleuol

- sy'n ymatebol ac yn gwobrwyo uchelgais. Rydym yn ddigon ystwyth i fanteisio ar gyfleoedd ymchwil ac i ymateb yn effeithiol i amgylchedd deinamig
- lle caiff rhagoriaeth ymchwil gydag effaith ei gydnabod, ei gefnogi a'i wobrwyo. Mae ein hymchwilwyr yn cynhyrchu cyhoeddiadau o ansawdd uchel yn ogystal â chanlyniadau ag effaith sylweddol a phellgyrhaeddol
- sy'n buddsoddi cyfleusterau, offer a chymorth o'r radd flaenaf ar gyfer ein hymchwilwyr. Rydym yn gwella ein seilwaith cymorth yn barhaus fel sail ar gyfer cynhyrchu ymchwil ragorol gydag effaith.

Gwneud i hyn ddigwydd

Mae ein strategaeth ymchwil gyfan, sy'n cwmpasu perfformiad staff, uniondeb ymchwil, meysydd ymchwil â blaenoriaeth a buddsoddiadau mawr yn seiliedig ar gefnogi a datblygu rhagoriaeth ymysg ymchwilwyr sy'n dechrau ar eu gyrfa hyd at ymchwilwyr sefydledig rhagorol. Byddwn yn ddetholus yn ein strategaeth fuddsoddi gyda'r nod o wobrwyo a datblygu rhagoriaeth, o ymchwil sylfaenol hyd at ymchwil drosiadol.

Is-strategaethau | Ymchwil

Mewn rhai achosion bydd y llwybr wedi'i ddiffinio'n barod, a bydd yn barhad o'r camau blaenorol, wedi'i ddiweddarau/helaethu fel y bo'n briodol, gan gynnwys:

Rhagoriaeth ac effaith ymchwil

Byddwn yn:

- cynnwys allbynnau ac effaith ragorol gan gyfran fwy o lawer o staff sy'n gymwys ar gyfer REF, heb leihau ansawdd yr ymchwil yn ein cyflwyniad i'r REF nesaf. Ein nod yw bod ymlith y 12 uchaf yn REF 2021 (yn seiliedig ar Rym Ymchwil)
- cefnogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa o ran hyfforddiant, adeiladu a chynnal eu gyrfaoedd yn ogystal â chynyddu gwelededd ac ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- cyfrannu at wella safonau byw a thwf economaidd, drwy gyfnewid gwybodaeth a chydweithio â'n partneriaid diwydiannol i gefnogi strategaeth y llywodraeth
- cefnogi'r uchelgais hon drwy amrywiaeth o fentrau strategol a ariennir i sicrhau bod gan staff yr amser a'r gofod a'r amgylchedd i ymgymryd ag ymchwil ragorol. Yn benodol byddwn yn buddsoddi arian ychwanegol mewn:
 - Rhwydweithiau Ymchwil Prifysgol newydd
 - Cynllun Cymrodoriaeth Ymchwil mawr
 - Cynllun Absenoldeb er mwyn Cynnal Ymchwil blynyddol
 - cyllid i gefnogi cyfnewidiadau academaidd rhyngwladol
 - cyllid i gefnogi gweithgarwch 'dychwelyd i ymchwil' i bobl sy'n dychwelyd ar ôl cyfnodau estynedig o absenoldeb
 - Cronfa Seilwaith Ymchwil flynyddol
 - cronfa gymorth strategol ar gyfer casglu data hydredol
 - cronfa i sicrhau bod gennym fuddsoddiad ategol ym maes datblygu effaith ym mhob disgyblaeth
- gweithio gyda Chyfarwyddwyr Ymchwil Ysgolion i sicrhau bod gan bob aelod o staff strategaeth gyhoeddi effeithiol ar waith, sy'n bodloni gofynion Mynediad Agored
- cysoni ein dyheadau REF drwy barhau i weithredu proses Adolygu Datblygu Perfformiad cadarn ac effeithiol ynghyd â system gydnabyddiaeth deg o ymdrech a'r galluogwyr sydd eu hangen i gynhyrchu ymchwil ragorol yn unol â safonau disgyblaeth benodol
- sefydlu'r trefniadau llywodraethu, y cynllun prosiect a'r gyllideb er mwyn goruchwyllo'r gwaith o gyflwyno ar gyfer y REF nesaf.

Ymchwil Ryngddisgyblaethol a Chydweithredol

Byddwn yn:

- hwyluso gweithgarwch amlddisgyblaethol a chydweithredol yn y Brifysgol a'r tu hwnt; yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a byddwn yn datblygu partneriaethau cryf â diwydiant a busnes
- datblygu a chynnal mentrau rhyngddisgyblaethol ar raddfa fawr gyda'r potensial i wneud cyfraniadau arloesol, tarfol i heriau byd-eang
- parhau i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu ein Sefydliadau Ymchwil Prifysgol a ddewiswyd gennym ar sail tystiolaeth o ansawdd ymchwil a màs critigol
- gwahodd ceisiadau i sefydlu rhwydweithiau ymchwil traws-golegol, rhyngddisgyblaethol, gyda'r potensial i ddatblygu fel y genhedlaeth nesaf o Sefydliadau Ymchwil Prifysgol
- yn ystod y cyfnod cynllunio sefydlu Sefydliad Astudiaethau Uwch fel fforwm ar gyfer ymchwil ryngddisgyblaethol i heriau byd-eang pwysig.

Datblygu a chefnogi ymchwilwyr a'r amgylchedd ymchwil

Byddwn yn:

- adeiladu capasiti drwy recriwtio, datblygu a chadw myfyrwyr ymchwil o'r radd flaenaf a staff ym mhob cyfnod gyrfa
- rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r broses o ddatblygu arweinwyr ymchwil ysbrydoledig ac effeithiol
- gweithredu gweithdrefnau perfformiad cryf, effeithiol a chymesur i gefnogi a gwobrwyo rhagoriaeth, uchelgais a llwyddiant, a chyflawni lefel gyson o ansawdd ac uniondeb
- sicrhau bod ein darpariaeth hyfforddi sgiliau yn arwain y sector
- datblygu strategaeth i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a nodwyd drwy REF Treigl
- parhau i fuddsoddi yn y cynllun datblygu uchelgeisiol ar gyfer ein System Arloesedd, gan gynnwys y Cyfleuster Ymchwil Drosiadol, a bydd yn gartref i ddau Sefydliad Ymchwil Prifysgol, a Chanolfan Arloesedd sy'n gartref i'r Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol cyntaf yn y byd, y bydd y ddau ohonynt yn ein galluogi i weithio gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol er mwyn mynd i'r afael â heriau ein hoes.

Canlyniadau Ymchwil

Bydd canlyniadau ein gwaith ymchwil rhagorol yn cynnwys:

- effaith ysgolheigaidd
- addysgu a arweinir gan ymchwil, cynllunio'r cwricwlwm a datblygiad proffesiynol
- gwelliannau i iechyd, cyfoeth, diogelwch a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang.

